

YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH

Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: E.G. Thomas (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

L. Tovey, Peiriannydd Seilwaith a Strategaeth Trafnidiaeth

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.13 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 CHWEFROR 2024

PENDERFYNWYD bod Cofnod Penderfyniadau cyfarfod yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2024 yn cael ei lofnodi gan ei fod yn gywir.

3. CAIS AM GAU FFYRDD YNG NGILFACH IAGO

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad ar gynigion i gau darn o'r briffordd gyhoeddus gan gadw hawliau llwybr ceffylau yn yr hen safle gwaith glo brig a adwaenir fel Gilfach Iago.

Nodwyd y byddai darn o briffordd gyhoeddus yn cael ei gau drwy Orchymyn mewn Llys Ynadon o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn amodol ar gadw hawliau llwybr ceffylau (Adran 116(4)), y mae eu defnydd ar gyfer cerddwyr, marchogion a beicwyr pedalau.

Rhoddyd gwybod i'r Aelod Cabinet y byddai hawliau priffyrdd yn cael eu diddymu ar gyfer cerbydau modur yn unig, gan gadw'r hawliau ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion. Yn hyn o beth, mynegwyd y byddai adfer mynediad cyhoeddus o fudd i gymunedau Blaenau, Saron a Phen-y-groes ei fwynhau unwaith eto, o gofio bod yr ardal yn ardal lofaol weithredol am flynyddoedd lawer o dan Celtic Energy. Nodwyd hefyd y byddai agor y rhan hon o'r rhwydwaith ar gyfer y cyhoedd yn cysylltu â'r rhwydwaith llwybr troed presennol sydd eisoes ar waith yn yr ardal, gan gryfhau cysylltiadau rhwng y cymunedau a chefnogi'r rhwydwaith ehangach, gan gynnwys dyheadau Teithio Llesol rhwng Rhydaman a Cross Hands.

Hysbyswyd yr Aelod Cabinet o ganlyniad yr ymgynghoriad cychwynnol nodwyd bod proses ymgynghori statudol i ddilyn.

PENDERFYNWYD argymhell i Bennaeth dros dro Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fwrw ymlaen â chau darn o'r briffordd gyhoeddus gan gadw hawliau llwybr ceffylau yn yr hen safle gwaith glo brig a adwaenir fel Gilfach Iago o dan Adran 116(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980.

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD